# DYDD MIWSIG CYMRU

09.02.2024

# Sut gallai gymryd rhan yn Dydd Miwsig Cymru?

## Beth yw Dydd Miwsig Cymru?




Mae Dydd Miwsig Cymru (Dydd Gwener, 9 Chwefror 2024) yn dathlu pob math o fiwsig Cymraeg, o indi, roc, pync, ffync, gwerin, electronica i hip hop a phopeth arall dan haul.

Mae nifer o fusnesau wedi cefnogi'r diwrnod yn y gorffennol, gan gynnwys EE, Dŵr Cymru, Marks and Spencer, Admiral, John Lewis, Waitrose, KFC, Co-Op, BT, S.A Brains & Co a Lush. Mae'n nhw wedi mynd ati i gefnogi drwy gynnal gigs yn eu siopau, gwneud addewid i ychwanegu miwsig Cymraeg at eu rhestrau chwarae yn barhaus, chwarae miwsig Cymraeg yn unig mewn canghennau ar y dydd, a rhannu rhestrau chwarae Cymraeg gyda'u miloedd o ddilynwyr ar gyfryngau cymdeithasol – mae'n hawdd iawn cymryd rhan, a gallwn ni helpu.

## Sut fedri di/ dy fudiad / dy fusnes gymryd rhan yn Dydd Miwsig Cymru?

- Gwna addewid i chwarae miwsig Cymraeg yn y swyddfa, yn y siop neu'r caffi ar y diwrnod neu drwy gydol y flwyddyn. Defnyddia ein rhestrau chwarae i greu naws ar gyfer pob math o achlysur, neu gallwn ni greu rhestr chwarae yn arbennig ar dy gyfer - hola ni.
- Trefna gig gydag artist Gymraeg yn eich lle busnes. Cysyllta a gallwn helpu i drefnu.
- Newidia lun proffil / baner dy gyfryngau cymdeithasol i frand Dydd Miwsig Cymru – sydd ar gael **YMA**.
- Paid aros tan Dydd Miwsig Cymru i rannu dy gariad at fiwsig Cymraeg, i ddarganfod dy hoff gân newydd neu i ymuno â'r sgwrs, dilyna @Miwsig_ neu chwilia am #Miwsig a #DyddMiwsigCymru. Byddwn ni'n rhannu dy negeseuon ac yn sôn wrth ein cynulleidfa am beth rwyt ti'n ei wneud.





## Templedi negeseuon cyfryngau cymdeithasol:

| Cymraeg | English |
| --- | --- |
| Rydyn ni'n ymuno â pharti #DyddMiwsigCymru ar ddydd Gwener 9 Chwefror drwy [...]<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | We are joining the #DyddMiwsigCymru parti on Friday 9 February by [...]<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |
| #DyddMiwsigCymru hapus! Rydyn ni'n barod i ddathlu'r holl gerddoriaeth wych o wlad y gân! Beth yw eich hoff gân Cymraeg chi?<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | #DyddMiwsigCymru hapus! Let's celebrate the incredible sounds of Wales! What's your favourite Welsh song or band?<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |
| Ar gyfer #DyddMiwsigCymru eleni rydyn ni'n gwrando ar un o'r rhestrau chwarae arbennig. Cer i wrando hefyd: https://linktr.ee/Miwsig<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | For #DyddMiwsigCymru we're listening to one of the specially curated playlists. You can listen to it too: https://linktr.ee/Miwsig<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |
| Mae gennym ni fandiau ac artistiaid Cymraeg anhygoel yng Nghymru. Heddiw, rydyn ni'n gwrando ar *[noda enw'r artist yma]* i ddathlu #DyddMiwsigCymru<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | We have some amazing Welsh language bands and artists here in Wales. Today, we're listening to *[insert artist here]* to celebrate #DyddMiwsigCymru.<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |
| Rydyn ni'n ymuno â pharti #DyddMiwsigCymru drwy *[chwarae miwsig Cymraeg / rannu dolenni i restrau chwarae Cymraeg arbennig]*<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | We are joining in the #DyddMiwsigCymru parti by *[playing Welsh language music /sharing links to specially curated Welsh music playlists]*<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |

| | |
|---|---|
| Fel cwmni o Gymru mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i ni. Dyna pam ein bod ni'n gwneud addewid, o #DyddMiwsigCymru ymlaen i chwarae miwsig Cymraeg drwy gydol y flwyddyn!<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | As a Welsh company, the Welsh language is important to us. That's why from #DyddMiwsigCymru onwards we pledge to play Welsh language music all year round!<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |
| Fel elusen/mudiad o Gymru mae'r Gymraeg yn bwysig iawn i ni. Dyna pam ein bod ni'n gwneud addewid o #DyddMiwsigCymru ymlaen, i chwarae miwsig Cymraeg drwy gydol y flwyddyn!<br><br>@Miwsig_ #Miwsig | As a Welsh charity/organisation, the language is important to us. That's why from #DyddMiwsigCymru onwards we pledge to play Welsh language music all year round!<br><br>@Miwsig_ #Miwsig |

## Brandio

Mae gwaith celf Dydd Miwsig Cymru 2024 ar gael i'w lawrlwytho **YMA.**

## Cadwa mewn cysylltiad

Dilyna ni ar ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael gwybod y diweddaraf am ddigwyddiadau Dydd Miwsig Cymru, pa fiwsig newydd sy'n cael ei ryddhau a sut i gymryd rhan.

Facebook @Miwsig
Twitter @Miwsig_
Instagram @Miwsig_
TikTok @Cymraeg_
Youtube @Cymraeg



## Beth am sgwrs?

Os wyt ti eisiau sgwrs am sut i ddathlu Dydd Miwsig Cymru, neu eisiau asedau marchnata cysyllta â **martha.owen@alaw.cymru** a **llinos.williams@alaw.cymru**.